**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Adfer a Chenedlaethau'r Dyfodol

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 27 Ebrill 2021 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | J A Hale | D W Helliwell |
| Y V Jardine | M Sherwood | P B Smith |
| L V Walton | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |
| Jonathan Wills | Cyfreithiwr Arweiniol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P K Jones a/ac L J Tyler-Lloyd

---

**31 Derbyn Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol: -

Y Cynghorydd V M Evans – Cofnod Rhif: 33 – Cynlluniau Adfer – Cyflogwyd gan GWR – personol.

**32 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Cydraddoldebau a Chenedlaethau'r Dyfodol a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2021 fel cofnod cywir.

**33 Cynllun Adferiad. (Arweinydd y Cyngor) (Llafar)**

Adroddodd y Cadeirydd, yn anffodus, fod Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd R C Stewart, wedi cael ei alw i gyfarfod brys ac wedi anfon ei ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod. Ychwanegodd y byddai'n dod i'r cyfarfod nesaf a drefnwyd ym mis Mehefin 2021.

Nododd y Cadeirydd hefyd y cynnydd a gafodd mewn cyfarfod gyda'r Cynghorydd A Pugh, Yr Aelod Cabinet dros Gefnogi Cymunedau, a thrafododd y canlynol â'r Pwyllgor: -

- Cyflogadwyedd – adroddodd y Cadeirydd ar y cynnydd a wnaed drwy'r Awdurdod o ran y Cynllun Rhyddhau Carcharorion a thynnodd sylw at lwyddiant cynllun blaenorol a fyddai, gobeithio, yn cael ei ailsefydlu.

  Tynnodd y Pwyllgor sylw at wahanol feysydd ar gyfer cynnydd megis cynnwys elusennau lleol, cyfiawnder adferol, cynnwys undebau credyd, problemau budd-daliadau sy'n gysylltiedig â charchariad byr;

- Prosiect y Stryd Fawr – Byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal yn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer mis Mehefin 2021. Byddai cynrychiolwyr y Tîm Cydnerthedd yn rhoi cyflwyniad ynglŷn â'r dyheadau a sut y byddai problemau'r ardal yn cael eu datrys.

  Trafododd y Pwyllgor y cyfle i weithio mewn partneriaeth â'r Tîm Cydnerthedd a dylanwadu ar y datblygiadau, cynnwys Aelodau Ward y Castell yn y prosiect, pwysigrwydd gwneud cynnydd ar unwaith yn dilyn pandemig COVID-19, yr angen i gael diweddariadau ysgrifenedig yn hytrach na llafar, y diffyg cysylltedd rhwng Canol y Ddinas / Gorsaf Fysus a'r Orsaf Drenau a'r effaith negyddol barhaus ar yr economi leol, yr anawsterau a wynebir gan yr ardal / pobl sy'n agored i niwed / yr angen i gefnogi unigolion.

**Penderfynwyd ar y canlynol:** -

1) Nodi cynnwys y trafodaethau;
2) Bydd y Cadeirydd yn trefnu Gweithgor i drafod Cyflogadwyedd.

## 34 Cynllun Gwaith 2020/21.

Cyflwynodd y Cadeirydd gynllun gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2020/21. Amlinellodd y byddai'r canlynol yn cael eu trefnu ar gyfer y cyfarfod ym mis Mehefin 2021: -

- Fforwm / Cyngor Ieuenctid
- Cronfa Cadernid
- Cynllun Adfer
- Cyflogadwyedd / Gwirfoddoli Cymunedol
- Diweddariad ar y Stryd Fawr
- Rhaglen Ddinasyddiaeth

Ychwanegwyd y byddai Cyd-gynhyrchu yn cael ei drefnu ar gyfer y cyfarfod ym mis Gorffennaf 2021. Nodwyd bod materion Trafnidiaeth wedi symud i PDP yr Economi ac Isadeiledd.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.35 pm

**Cadeirydd**